

Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan

Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

1. Cyflwyniad

Mae Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cynllun") wedi llunio'r Datganiad hwn o Egwyddorion Buddsoddi ("y Datganiad") i gydymffurfio â gofynion Deddf Pensiynau 1995, Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi) 2005, deddfwriaeth ddilynol a gofynion cysylltiedig. Bwriad y Datganiad yw cadarnhau'r egwyddorion buddsoddi sy'n llywodraethu penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau'r Cynllun.

Wrth baratoi'r datganiad hwn, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymgynghori â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (y "Cyflogwr") ac wedi cael ac ystyried cyngor proffesiynol ysgrifenedig gan Mercer Limited, (yr "Ymgynghorydd Buddsoddi"). Cred yr Ymddiriedolwyr bod yr Ymgynghorydd Buddsoddi'n bodloni gofynion Adran 35(5) o Ddeddf Pensiynau 1995 (fel y'i diwygiwyd).

2. Proses ar gyfer Dewis Buddsoddiadau

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried eu hamcanion buddsoddi a chyllido gyda'i gilydd ac yng ngoleuni cryfder cyfmod y Cyflogwr i sicrhau bod y ddau yn gydnaws ac yn gynaliadwy. Yna mae'r Ymddiriedolwyr wedi llunio portffolio o fuddsoddiadau sy'n gyson â'r amcanion hyn y maent yn gobeithio fydd yn darparu'r lefel uchaf o adenillion (net o'r holl gostau) ar gyfer lefel y risg a gymerir (gan ystyried cyfyngiadau ar gymhlethdod cyffredinol y trefniadau sy'n briodol i faint yr asedau dan eu rheolaeth).

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried yr hyn a gredant i fod yn ystyriaethau perthnasol yn ariannol dros gyfnod priodol, a all gynnwys disgwyliadau risg ac adenillion yn ogystal â materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant ("ESG") lle ystyrir bod y rhain yn cael effaith berthnasol ar incwm, gwerth neu anwadalrwydd buddsoddiad a ddelir neu'r portffolio cyffredinol o fuddsoddiadau a ddelir gan y Cynllun. Manylir ar ystyriaethau penodol trwy gydol y Datganiad hwn.

Wrth ystyried y buddsoddiadau priodol ar gyfer y Cynllun, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cael ac ystyried cyngor ysgrifenedig yr Ymgynghorydd Buddsoddi y cred yr Ymddiriedolwyr ei fod yn briodol gymwys i roi cyngor o'r fath. Mae'r cyngor a dderbyniwyd a'r trefniadau a weithredwyd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, yn gyson â gofynion Adran 36 o Ddeddf Pensiynau 1995 (fel y'i diwygiwyd).

3. Amcanion Buddsoddi

Yr amcanion a nodir yma, a'r risgiau a'r ffactorau eraill y cyfeirir atynt, yw'r rhai y mae'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu eu bod yn ystyriaethau perthnasol yn ariannol o ran y Cynllun.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr fuddsoddi asedau'r Cynllun er budd gorau'r aelodau, y buddiolwyr a'r Cyflogwr ac, yn achos gwrthdaro buddiannau posibl, er budd yr aelodau a'r buddiolwyr yn unig.

Yn y cyd-destun hwn, prif amcanion yr Ymddiriedolwyr mewn perthynas â pholisi buddsoddi yw:

- Sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr yn gallu bodloni'r rhwymedigaethau sydd wedi'u haddo i fuddiolwyr y Cynllun gan y Cyflogwr.

- Sicrhau cysondeb â threfniadau cyllido'r Cynllun.
- Rhoi sylw dyledus i fuddiannau'r Cyflogwr ar faint ac amllder taliadau cyfraniadau Cyflogwyr.

O ystyried natur y rhwymedigaethau, gallai cyfnod buddsoddi'r Cynllun fod yn hirdymor. Fodd bynnag, gall unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol i drosglwyddo rhwymedigaethau (yn llawn neu'n rhannol) i gwmni yswiriant (e.e. trwy brynu blwydd-daliadau swmp gyda chwmni yswiriant) fyrhau cyfnod buddsoddi'r Cynllun yn sylweddol.

4. Rheoli a Mesur Risg

Mae yna wahanol risgiau y mae pob cynllun pensiwn yn agored iddynt, y cred yr Ymddiriedolwyr allai fod yn berthnasol yn ariannol i'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod, er y gall risg gynyddol gynyddu adenillion posibl dros gyfnod hir, ei fod hefyd yn cynyddu'r risg o ddiffyg adenillion o'i gymharu â'r hyn sy'n ofynnol i gyflenwi newidiadau yn rhwymedigaethau cronedig a chronnus y Cynllun, yn enwedig dros y tymor byr i ganolig. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi derbyn cyngor ar y mater ac (yng ngoleuni'r amcanion a nodwyd yn flaenorol) wedi ystyried yn ofalus oblygiadau mabwysiadu gwahanol lefelau risg. Mae polisi'r Ymddiriedolwyr ar reoli risg dros gyfnod rhagweledig y Cynllun wedi'i nodi isod.

Mae'r risgiau buddsoddi strategol allweddol sy'n effeithio ar gyllid y Cynllun fel a ganlyn:

- **Risg Cyfradd Llog** – y risg nad yw newidiadau yng ngwerth yr asedau yn symud yn unol â newidiadau yn y gwerth a roddir ar rwymedigaethau'r Cynllun mewn ymateb i newidiadau mewn cyfraddau llog;
- **Risg Chwyddiant** – yn debyg i risg cyfradd llog ond yn ymwneud â chwyddiant;
- **Risg Credyd** – y risg y bydd un parti i offeryn ariannol yn achosi colled ariannol i'r Cynllun trwy fethu â chyflawni rhwymedigaeth.
- **Risg Arian Cyfred** – y risg bod cysylltiad ag arian cyfred tramor yn achosi i brisiau asedau amrywio mewn ffordd anghyberthynol â gwerth y rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi mewn Sterling.
- **Risg Hylifedd** – y risg nad oes gan y Cynllun ddigon o asedau hylifol i dalu taliadau.

Ymdrinnir ag ystyriaethau sy'n benodol i faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant yn Adran 10.

Er mwyn rheoli risgiau buddsoddi, mae'r Ymddiriedolwyr wedi sefydlu polisi buddsoddi a luniwyd i leihau risg, heb niweidio rhagolygon y Cynllun o ran adenillion hirdymor, gan ddefnyddio proses modelu rhwymedigaethau asedau a gynhelir gan Mercer sy'n mesur cyfraniad gwahanol ffactorau risg at y Gwerth mewn Perygl cyffredinol ("VaR").

Yn benodol:

- Rheolir risgiau cyfraddau llog a chwyddiant trwy ddyraniad i fondiau sy'n newid mewn gwerth mewn modd tebyg i rwymedigaethau'r Cynllun mewn ymateb i newidiadau mewn cyfraddau llog hirdymor a disgwyliadau chwyddiant.
- Rheolir risg credyd trwy ddyrannu a buddsoddi strategol mewn cronfa/cronfeydd cyfun gyda daliadau amrywiol o fondiau sydd o ansawdd gradd buddsoddi yn bennaf.
- Rheolir risg arian cyfred trwy gyfanswm y dyraniad i farchnadoedd tramor.

- O ran risg hylifedd, cred Ymddiriedolwyr bod buddsoddiadau'r Cynllun yn realeiddiadwy ar fyr rybudd yn y rhan fwyaf o amodau cyfredol y farchnad.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y risgiau ychwanegol canlynol ac yn cymryd y camau a ganlyn i reoli risg:

- Risgiau a allai godi o ddiffyg amrywio buddsoddiadau. Nod yr Ymddiriedolwyr yw sicrhau bod y polisi dyrannu asedau sydd ar waith yn arwain at bortffolio ag iddo amrywiaeth ddigonol. Oherwydd maint asedau'r Cynllun a chan gydnabod yr angen i amrywio, sicrheir cysylltiad â buddsoddiadau trwy gyfryngau cyfun.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y risg bod aelodau'n byw'n hirach, ar gyfartaledd, nag a dybiwyd pan brisiwyd rhwymedigaethau'r Cynllun, ac yn cadw golwg ar hyn ym mhob Prisiad Actiwaraid.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod y defnydd o reolaeth weithredol yn cynnwys risg nad yw'r asedau'n cyflawni'r adenillion disgwylidig. Mae perfformiad y rheolwr buddsoddi yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Mae'r dogfennau sy'n llywodraethu penodiad y rheolwr yn cynnwys nifer o ganllawiau sydd, ymhlith pethau eraill, wedi'u cynllunio i sicrhau bod y Cynllun yn dal buddsoddiadau addas yn unig. Caiff y rheolwr ei atal rhag buddsoddi mewn dosbarthiadau asedau y tu allan i'w fandad heb ganiatâd yr Ymddiriedolwyr ymlaen llaw.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn adroddiadau chwarterol gan y rheolwr buddsoddi i helpu i wirio nad oes unrhyw beth wedi digwydd a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch addasrwydd parhaus y buddsoddiadau cyfredol.
- Mae cadw asedau'r Cynllun yn ddiogel yn cael ei ddirprwyo i geidwaid proffesiynol (drwy ddefnyddio cyfryngau cyfun).
- Ar draws holl fuddsoddiadau'r Cynllun, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer risgiau rheoleiddiol a gwleidyddol. Mae risg reoleiddiol yn deillio o fuddsoddi mewn amgylchedd marchnad lle gall y gyfundrefn reoleiddio newid. Gall risg wleidyddol ddwysáu hyn yn yr amgylcheddau hynny sy'n destun cyfundrefnau ansefydlog.

Yn gyffredinol, mae'r Ymddiriedolwyr yn mesur ac yn rheoli risg buddsoddi yn bennaf trwy'r strategaeth fuddsoddi (a amlinellir yn Adran 6) ac yn adolygu priodoldeb y strategaeth hon yn rheolaidd.

Mae parodrwydd yr Ymddiriedolwyr i gymryd risg buddsoddi yn dibynnu ar gryfder ariannol parhaus y Cyflogwr a'i barodrwydd i gyfrannu'n briodol at y Cynllun. Mae cryfder ariannol y Cyflogwr a'i ymrwymiad canfyddedig i'r Cynllun yn cael ei fonitro a bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r risg buddsoddi mewn perthynas â'r rhwymedigaethau pe bai'r naill neu'r llall o'r rhain yn dirywio.

Mae graddfa'r risg buddsoddi y mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon ei chymryd hefyd yn dibynnu ar amgylchiadau eraill, gan gynnwys iechyd ariannol y Cynllun, proffil rhwymedigaethau'r Cynllun a'r cyfnod buddsoddi. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro'r rhain gyda'r bwriad o newid yr amcanion buddsoddi, goddefgarwch risg a/neu darged adenillion a chymysgedd yr asedau, pe bai newid sylweddol yn y ffactorau hyn.

5. Adeiladu Portffolio

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r egwyddorion canlynol yn amodol ar y prif gyfyngiad bod lefel y risg ddisgwyliedig ar gyfanswm y Cynllun yn gyson â'r hyn a nodir yn Adrannau 3 a 4 ac yn amodol ar y Weithred Ymddiriedolaeth a'i Rheolau:

- Mae rôl ar gyfer **rheolaeth weithredol a goddefol**. Mae rheolaeth oddefol yn cynnwys cyflogi rheolwyr buddsoddi i gyflawni adenillion sy'n hafal i feincnod dewisol sy'n briodol i'r dosbarth asedau a ddelir. Mae rheolaeth weithredol yn cynnwys cyflogi rheolwyr buddsoddi sy'n anelu at berfformio'n well na meincnod ond sydd â risg y byddant yn tanberfformio. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried priodoldeb rheolaeth weithredol a goddefol wrth weithredu strategaeth fuddsoddi.
- Oherwydd maint y Cynllun, **bydd buddsoddiadau'n cael eu gweithredu trwy ddefnyddio cyfryngau cyfun**. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried yr angen i amrywio, y cyfryngau sydd ar gael, y cyfyngiadau buddsoddi a geir mewn cronfeydd cyfun, rhwyddineb gweinyddu a chlodadwyedd buddsoddiadau sylfaenol wrth fuddsoddi mewn cronfeydd cyfun.
- Caiff **mandadau arbenigol** eu ffafrio dros rhai cyffredinol oherwydd y potensial i gael mynediad at lefel uwch o arbenigedd. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfyngu ar nifer y rheolwyr a benodir yn uniongyrchol er mwyn rheoli eu gofynion monitro cyffredinol. Hefyd, dylai fod rhywfaint o hyblygrwydd i symud rhwng dosbarthiadau asedau er gwaethaf penodi arbenigwyr.
- Ar gyfanswm lefel y Cynllun dylid **amrywio buddsoddiadau yn eang** i sicrhau nad ydynt wedi'u canoli ar un farchnad neu roddwr, i'r graddau nad yw hyn wedi'i ddiogelu (e.e. gan warant cyfatebol). Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i fuddsoddi ym mondiau Llywodraeth y DU. Bydd y swm a fuddsoddir mewn **portffolios sydd wedi'u canoli'n helaeth** yn ystyried lefel y risg y mae hyn yn ei gynrychioli, gan ystyried asedau'r Cynllun yn gyffredinol.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod **risg hylifedd** mewn dal asedau nad ydynt yn hawdd eu gwerthu a'u realeiddio. O ystyried cyfnod buddsoddi hirdymor y Cynllun, cred yr Ymddiriedolwyr bod rhywfaint o risg hylifedd yn dderbyniol oherwydd eu bod yn disgwyl cael eu gwobrwyo am dderbyn y risg. Bydd y swm a fuddsoddir mewn buddsoddiadau anhylifol, megis eiddo neu gronfeydd eiddo cyfun a marchnadoedd preifat, yn ystyried y goblygiadau ar weithrediad y Cynllun o beidio â gallu diddymu cyfran o fuddsoddiad y Cynllun yn rhwydd. Caniateir buddsoddi mewn **deilliadau** yn uniongyrchol neu o fewn cronfeydd cyfun at ddibenion lleihau risg neu i hwyluso rheoli portffolio yn effeithlon (gan gynnwys lleihau cost neu gynhyrchu cyfalaf neu incwm ychwanegol gyda lefel dderbyniol o risg).
- Gellir buddsoddi mewn gwarantau nad ydynt yn cael eu masnachu ar **farchnadoedd rheoledig**. Gan gydnabod y risgiau (yn enwedig hylifedd a chysylltiad â gwrthbartïon) bydd buddsoddiadau o'r fath fel arfer yn cael eu gwneud dim ond gyda'r bwriad o leihau risg neu hwyluso rheoli portffolio yn effeithlon. Mewn unrhyw achos, bydd yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi'n bennaf ar farchnadoedd rheoledig.
- Ni fydd yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi'n uniongyrchol, nac yn benthycu i **Gyfflogwr y Cynllun** nac endidau cysylltiedig.

- Ni chaniateir **benthycia uniongyrchol** (megis defnyddio cyfleuster gorddrafft) ac eithrio i dalu gofynion hylifedd tymor byr. Adolygir y defnydd o **fenthycia o fewn cronfeydd cyfun** gan yr Ymddiriedolwr fel rhan o'r broses gychwynnol ar gyfer buddsoddiadau newydd.

6. Strategaeth Rheoli

Yn seiliedig ar gyngor arbenigol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar strategaeth fuddsoddi sy'n gyson ag amcanion cyllido a buddsoddi'r Ymddiriedolwyr. Mae rhaniad yr asedau o fewn pob dosbarth asedau (ac eithrio unrhyw arian parod a ddelir ar wahân i fodloni gofynion llif arian parod o ddydd i ddydd) wedi'i nodi yn y tabl isod. Disgwylir i'r strategaeth fuddsoddi darged ddarparu amddiffyniad o tua 100% rhag risgiau cyfraddau llog a chwyddiant yn erbyn rhwymedigaethau Solfedd y Cynllun (amcangyfrif o'r pris prynu i mewn).

Cronfa	% Targed
<u><i>Asedau Diogelu (Bondiau)</i></u>	<u><i>100.0</i></u>
Active Corporate Bond – Over 10 Year Fund	15.0
Over 15 Year Gilts Index	18.5
All Stocks Gilts Index	28.0
5 to 15 Year Gilts Index	6.0
Over 15 Year Index-Linked Gilts Index	18.0
Over 5 Year Index-Linked Gilt Index	2.0
All Stocks Index-Linked Gilts Index	3.5
5 to 15 Year Index-Linked Gilts Index	5.0
0 to 5 Year Index-Linked Gilts Index	2.5
Sterling Liquidity Fund	1.5
Cyfanswm	100.0

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y bydd y dyraniad gwirioneddol yn gwyro oddi wrth y targed hwn oherwydd symudiadau'r farchnad.

Nid yw ystodau ailgydbwyso dyraniadau asedau wedi'u cymhwyso i asedau'r Cynllun (Asedau Diogelu) oherwydd gall unrhyw ailgydbwyso arwain at wyriad o gyfradd llog y Cynllun a lefelau amddiffyn rhag chwyddiant. Bydd y dyraniad i Asedau Diogelu yn cael ei ail-gydbwyso o leiaf bob blwyddyn ar ôl i Actiwari'r Cynllun ailraddnodi rhwymedigaethau'r Cynllun (ar ddiwedd blwyddyn y Cynllun).

Mae'r Ymddiriedolwyr bellach yn dal 1.5% o asedau'r Cynllun mewn cyfrwng hylifedd (y Sterling Liquidity Fund) i gynorthwyo rheoli llif arian yn effeithlon.

7. Adenillion Disgwyliedig

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl cynhyrchu adenillion, dros y tymor hir, o leiaf yn unol â'r rhagdybiaethau actiwaraid oedd yn sail i gytuno ar gyllid y Cynllun. Cydnabyddir y gall perfformiad dros y tymor byr wyro'n sylweddol oddi wrth y targed tymor hir.

8. Rheoli Asedau o Ddydd i Ddydd

Mae rheolaeth dydd i ddydd o'r asedau, gan gynnwys eu dewis, eu cadw a'u realeiddio, yn cael ei dirprwyo i reolwr buddsoddi proffesiynol a reoleiddir gan yr FCA. Mae gan y rheolwr buddsoddi ddisgresiwn llawn i brynu a gwerthu buddsoddiadau ar ran y Cynllun yn amodol ar gyfyngiadau y cytunwyd arnynt a deddfwriaeth berthnasol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd camau i fodloni eu hunain bod gan y rheolwr buddsoddi y wybodaeth a'r profiad priodol i reoli buddsoddiadau'r Cynllun a'i fod yn cyflawni'r gwaith yn gymwys.

Mae meincnodau ac amcanion perfformiad y rheolwyr wedi'u nodi isod:

Cronfa	Meincnod	Amcan Buddsoddi
<u>Asedau Diogelu (Bondiau)</u>		
Active Corporate Bond – Over 10 Year Fund	iBoxx £ Non-Gilts 10 Year +	Rhagori ar y meincnod o 0.75% y flwyddyn gros o'r ffioedd dros gyfnodau 3 blynedd
Over 15 Year Gilts Index	FTSE Actuaries UK Conventional Gilts Over 15 Years Index	
All Stocks Gilts Index	FTSE Actuaries UK Conventional Gilts All Stocks Index	
5 to 15 Year Gilts Index	FTSE Actuaries UK Conventional Gilts 5-15 Years Index	
Over 15 Year Index-Linked Gilt Index	FTSE Actuaries UK Index-Linked Gilts Over 15 Years Index	Olrhain y mynegai meincnod o fewn +/-0.25% y flwyddyn am ddwy flynedd allan o dair.
Over 5 Year Index-Linked Gilt Index	FTSE Actuaries UK Index-Linked Gilts Over 5 Year Index	
All Stocks Index-Linked Gilts Index	FTSE Actuaries UK Index-Linked Gilts All Stocks Index	
5 to 15 Year Index-Linked Gilts Index	FTSE Actuaries UK Index-Linked Gilts 5-15 Years Index	
0 to 5 Year Index-Linked Gilts Index	FTSE Actuaries UK Index-Linked Gilts 0-5 Years Index	Darparu cysylltiad amrywiol ac adenillion cystadleuol mewn perthynas â SONIA
Sterling Liquidity Fund	SONIA (Sterling Overnight Index Average)	

9. Dewis, Cadw a Realeiddio Buddsoddiadau

Mae dewis, cadw a realeiddio asedau yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n gyson â chynnal dyraniad strategol cyffredinol y Cynllun ac yn gyson â'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn y Datganiad hwn.

Mae gan y rheolwr buddsoddi ddisgresiwn o ran amseru realeiddio buddsoddiadau ac ystyriaethau sy'n ymwneud â hylifedd y buddsoddiadau hynny o fewn paramedrau a nodir yn y dogfennau penodi perthnasol a phrosbectysau cronfeydd cyfun.

Mae'r rheolwr buddsoddi wedi ymrwymo i beidio â mynd yn uwch na phwerau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr fel y nodir yn y Weithred Ymddiriedolaeth. Fel y soniwyd eisoes, mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd y mae'r rheolwr buddsoddi yn eu cynnal yn cael eu llywodraethu gan y cytundeb rheoli buddsoddiadau, a adolygir o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y cyfarwyddiadau, y canllawiau a'r cyfyngiadau gweithredu'n parhau i fod yn briodol.

10. ESG, Stiwardiaeth a Newid yn yr Hinsawdd (gan gynnwys Gweithgareddau Ymgysylltu)

Cred yr Ymddiriedolwyr y gall ffactorau ariannol perthnasol, gan gynnwys ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant corfforaethol (ESG), gael effaith sylweddol ar risg buddsoddi a chanlyniadau o ran adenillion, ac y gall stiwardiaeth dda greu a chadw gwerth i gwmnïau a marchnadoedd yn gyffredinol. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn cydnabod bod materion cynaliadwyedd hirdymor, yn enwedig newid yn yr hinsawdd, yn cyflwyno risgiau a chyfleoedd a allai fod yn berthnasol dros gyfnod buddsoddi'r Cynllun ac y gallai fod angen cynyddol am ystyriaeth benodol.

Mae'r meincnod strategol wedi'i bennu gan ddefnyddio rhagdybiaethau economaidd ac ariannol priodol y mae proffiliau risg/adenillion disgwyledig ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau asedau wedi deillio ohonynt. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn berthnasol ar lefel y farchnad yn gyffredinol ac ystyrir eu bod yn adlewyrchu'r holl ffactorau sy'n berthnasol yn ariannol.

Buddsoddir asedau'r Cynllun mewn cyfryngau cyfun ac mae rheolaeth asedau'r Cynllun o ddydd i ddydd wedi'i dirprwyo i'r rheolwr buddsoddi, gan gynnwys dewis, cadw a realeiddio buddsoddiadau o fewn eu mandadau. Wrth wneud hynny, disgwylir ac anogir y rheolwr buddsoddi i ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu ar faterion perthnasol gan gynnwys ffactorau ESG (yn cynnwys ystyriaethau newid yn yr hinsawdd) ac i arfer hawliau pleidleisio a rhwymedigaethau stiwardiaeth sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiadau, yn unol â'u polisïau llywodraethiant corfforaethol eu hunain a'u harferion gorau cyfredol, gan gynnwys Cod Llywodraethiant Corfforaethol y DU a Chod Stiwardiaeth y DU. Mae hyn yn berthnasol i fuddsoddiadau ecwiti a dyled, fel y bo'n briodol, ac mae'n cwmpasu ystod o faterion gan gynnwys strategaeth perfformiad y rhoddwyr, y strwythur cyfalaf, rheoli gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl, risgiau, effaith gymdeithasol ac amgylcheddol a llywodraethiant corfforaethol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu â'r rheolwr buddsoddi ar y materion hyn trwy gyfarfodydd a gohebiaeth gyfnodol (ymhlith pethau eraill), a byddant yn monitro gweithgarwch ymgysylltu'r rheolwr buddsoddi (fel pleidleisio) o leiaf bob blwyddyn. Disgwylir i reolwyr sydd wedi cofrestru gyda'r FCA adrodd ar eu hymlyniad at God Stiwardiaeth y DU yn flynyddol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut mae ESG, newid yn yr hinsawdd a stiwardiaeth yn cael eu hintegreiddio o fewn prosesau buddsoddi wrth benodi rheolwyr buddsoddi newydd, monitro'r rheolwr buddsoddi presennol a chadw neu dynnu'n ôl oddi wrth y rheolwr buddsoddi. Bydd pwysigrwydd cymharol y ffactorau hyn o'i gymharu â ffactorau eraill yn dibynnu ar y dosbarth asedau sy'n cael ei ystyried. Caiff y rheolwr buddsoddi presennol ei fonitro'n rheolaidd a gwneir defnydd o raddfeydd ESG yr ymgynghorydd buddsoddi ar gyfer hyn.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr wedi gosod unrhyw gyfyngiadau buddsoddi ar y rheolwr buddsoddi a benodwyd mewn perthynas â chynhyrchion neu weithgareddau penodol, ond gallant ystyried hyn yn y dyfodol.

Ni fydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried polisïau ESG y darparwr(wyr) Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a'r cronfeydd buddsoddi cysylltiedig gan fod y rhain yn gyfran fach o gyfanswm yr asedau.

Yn unol â chanllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar "Reporting on Stewardship and Other Topics through the Statement of Investment Principles and the Implementation Statement: Statutory and Non-Statutory Guidance" mae'r Ymddiriedolwyr, ar ôl ymgynghori â Mercer wedi penderfynu ar eu diffiniad o 'bleidlais arwyddocaol'.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi nodi pleidleisiau sy'n ymwneud ag ESG ac sy'n ymwneud â chwmni sy'n ffurfio 1.25% neu fwy o werth asedau net y gronfa benodol.

11. Materion Anariannol

Nid yw materion anariannol (lle mae materion anariannol yn cynnwys safbwyntiau moesegol aelodau ar wahân i ystyriaethau ariannol fel materion ESG perthnasol yn ariannol) yn cael eu hystyried yn benodol wrth ddewis, cadw a realeiddio buddsoddiadau. Byddai'r Ymddiriedolwyr yn adolygu'r polisi hwn mewn ymateb i alw sylweddol gan aelodau.

12. Trefniadau'r Rheolwr Buddsoddi

Penodir Rheolwyr Buddsoddi ar sail galluoedd canfyddedig ac, felly, y tebygolrwydd canfyddedig y byddant yn cyflawni eu nodweddion disgwylidig o ran adenillion a risg ar gyfer y dosbarth asedau neu'r strategaeth fuddsoddi benodol y'u dewiswyd i'w rheoli dros gyfnod hir priodol. Mae hyn yn cynnwys, mewn perthynas â rheolaeth weithredol, lefelau priodol o berfformio'n well ac, mewn perthynas â rheolaeth oddefol, lefelau addas o "wall olrhain" yn erbyn meincnod perthnasol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gofyn am gyngor arbenigol gan eu hymgyngorydd buddsoddi mewn perthynas â'r penodiadau hyn. Mae'n bosibl y bydd y cyngor hwn yn ystyried ffactorau megis gwaith y rheolwr o ran cynhyrchu syniadau, adeiladu portfolio, gweithredu a rheoli busnes, yn ogystal ag ymagwedd y Rheolwr Buddsoddi penodedig at ESG a gweithgarwch ymgysylltu, fel y maent yn berthnasol i'r strategaeth fuddsoddi benodol sy'n cael ei hystyried.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi asedau'r Cynllun mewn cyfryngau buddsoddi cyfun aml-fuddsoddwr ac yn derbyn nad oes ganddynt fawr o allu i bennu proffil risg a thargedau adenillion y rheolwr heblaw trwy'r dewis o gyfryngau penodol. Felly, byddant yn dewis cyfryngau sy'n cyd-fynd orau â pholisi'r Ymddiriedolwyr eu hunain o ran amcanion a chanllawiau buddsoddi (fel y nodir mewn dogfennau llywodraethu perthnasol) ac, ar ôl eu penodi, byddant yn adolygu'r penodiad pe bai unrhyw newidiadau sylweddol yn y termau hyn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwneud penodiadau gyda'r bwriad iddynt fod yn hirdymor, i'r graddau y mae hyn yn gyson â chyfnod buddsoddi cyffredinol yr Ymddiriedolwyr, ac fel arfer nid oes hyd penodol ar gyfer penodiadau rheolwyr. Fodd bynnag, gellir terfynu penodiadau fel arfer ar fyr rybudd.

Ar gyfer pob penodiad, mae cadw'r deiliad swydd yn dibynnu ar hyder parhaus yr Ymddiriedolwyr y bydd y rheolwr buddsoddi yn cyflawni ei amcan. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwneud yr asesiad hwn gan ystyried amrywiol ffactorau sy'n cynnwys perfformiad yn ôl data yn ogystal ag asesiad o ragolygon yn y dyfodol.

Felly, mae Rheolwyr Buddsoddi yn cael eu cymell i gyflawni'r amcanion a osodwyd ar eu cyfer, sy'n gyson â pholisïau ac amcanion yr Ymddiriedolwyr, ac i sicrhau eu bod yn parhau i allu gwneud hynny ar sail dreigl. Mae hyn yn annog rheolwyr buddsoddi i edrych ar yr hirdymor wrth asesu rhagolygon perfformiad y materion ecwiti a dyled y maent yn buddsoddi ynddynt, neu'n ceisio buddsoddi ynddynt, ac yn ymgysylltu â nhw.

Asesu Perfformiad a Ffioedd

Mae adenillion (ac anwadalrwydd) buddsoddiadau'n cael eu mesur ar sail absoliwt ac mewn perthynas ag un neu fwy o feincnodau a thargedau addas. Ystyrir adenillion yn net o ffioedd a chostau trafodion parhaus. Mae'r Ymddiriedolwyr yn canolbwyntio ar berfformiad hirdymor ond gallant roi rheolwr 'ar wyliadwriaeth' os oes pryderon am berfformiad tymor byr.

Yn ogystal ag asesu adenillion buddsoddiadau, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried ystod o ffactorau eraill, gyda chymorth eu hymgyngorydd buddsoddi, wrth asesu rheolwyr buddsoddi. Gall y rhain gynnwys:

- Newid personél a busnes;

- Nodweddion portffolio (gan gynnwys risg a chydawnsedd ag amcanion) a throsiant;
- Gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu;
- Safonau gwasanaeth;
- Asesiad yr ymgynghorydd buddsoddi o ragolygon parhaus yn seiliedig ar eu graddfeydd ymchwil.

Mae Rheolwyr Buddsoddi fel arfer yn cael eu talu trwy ffi a gyfrifir fel canran o'r asedau dan eu rheolaeth. Y prif gymhellant yw i'r rheolwyr buddsoddi gadw eu penodiad trwy gyflawni eu hamcanion datganedig er mwyn parhau i dderbyn y ffi gysylltiedig. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad fesul achos a byddent hefyd yn ystyried gofyn am ostyngiadau ffioedd. Nid yw Rheolwyr Buddsoddi yn cael eu talu yn seiliedig ar drosiant portffolio.

Costau Trosiant Portffolio

Mae costau trosiant yn deillio o (a) trafodion "parhaus" o fewn portffolio rheolwr buddsoddi a (b) costau "llif arian" a ysgwyddir wrth fuddsoddi neu realeiddio asedau o fandad. Yn hanesyddol nid yw'r Ymddiriedolwyr wedi monitro costau trafodion parhaus rheolwyr buddsoddi yn benodol.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn monitro costau llif arian rheolaidd (ond maent yn ceisio eu lleihau trwy bolisi llif arian parhaus). Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro costau gweithredu newid strategol trwy eu hymgyngorydd buddsoddi.

13. Strwythur Ffioedd

Telir ffi rheoli i'r rheolwr buddsoddi yn seiliedig ar werth yr asedau a reolir. Ceir rhagor o fanylion am y ffioedd hyn yng nghytundebau buddsoddi'r rheolwyr.

14. Cydymffurfio â'r Datganiad hwn

Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro cydymffurfiaeth â'r Datganiad hwn bob blwyddyn.

15. Adolygu'r Datganiad hwn

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r Datganiad hwn o leiaf unwaith bob tair blynedd ac yn syth ar ôl unrhyw newid sylweddol mewn polisi buddsoddi. Bydd unrhyw newid i'r Datganiad hwn yn cael ei wneud dim ond ar ôl cael ac ystyried cyngor ysgrifenedig gan rywun y mae'r Ymddiriedolwyr yn credu'n rhesymol eu bod yn gymwys yn sgil eu gallu a'u profiad ymarferol mewn materion ariannol, ac sydd â'r wybodaeth a'r profiad priodol o reoli buddsoddiadau cynlluniau pensiwn.

Mark Rainey

Enw

Signed by:

Mark Rainey

161C2FBB9E06430...

Llofnod

**Dros ac ar ran Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Cymru
Llanbedr Pont Steffan**